Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**
—
Welsh Parliament
**Petitions Committee**

HSC(6)-07-21 PTN 03

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Medi 2021

Annwyl Russell

**Deiseb P-05-1045 Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl misol fod yn ofyniad cyfreithiol**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wrthi'n ystyried y ddeiseb hon gan Tesni Morgan. Gwnaethom drafod y ddeiseb yn ddiweddar, yn ein cyfarfod ar 13 Medi:

***Geiriad y ddeiseb:***

*Ar 27 Awst 2020, lladdodd ein Bronwen annwyl ei hun ar ôl brwydr hir gyda'i hiechyd meddwl.*

*Rydym ni, fel teulu, wir yn credu y gallai hynny fod wedi cael ei atal. Yn ystod 6 mis olaf ei bywyd, dirywiodd iechyd meddwl Bronwen yn sylweddol. Gwnaeth sawl ymdrech i ladd ei hun, gan roi ei hun mewn sefyllfaoedd peryglus yn rheolaidd. Roedd Bronwen mewn anobaith—nid oedd ei chynllun gofal yn addas at y diben ac roedd hi a'r teulu'n erfyn ar i rywbeth newid.*

Yn y cyfarfod, fe gytunodd yr aelodau i ysgrifennu atoch er mwyn gofyn ichi ystyried canolbwyntio ar gymorth iechyd meddwl, fel y'i hamlygwyd gan y deisebydd, fel rhan o'ch blaengynllun gwaith.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=22262.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio'r tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod, neu ffoniwch 0300 200 6454.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir

Jack Sargeant AS

Cadeirydd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
0300 200 6565